# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**CYMDEITHASEG – CYDRAN 2**
**C200N20-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Ltd.

**EDUQAS TGAU CYMDEITHASEG – CYDRAN 2**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2024**

## Canllawiau marcio i arholwyr

### Crynodeb o’r amcanion asesu ar gyfer Cydran 2

Mae'r cwestiynau yn y papur hwn yn asesu pob un o'r tri amcan asesu – AA1, AA2 ac AA3. Mae'r amcanion asesu yn canolbwyntio ar:

- y gallu i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA1)
- y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA2)
- y gallu i ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol er mwyn llunio dadleuon, llunio barn a thynnu casgliadau (AA3)

### Strwythur y cynllun marcio

Mewn cwestiynau tariff uchel, mae dwy ran i'r cynllun marcio:

- Grid asesu yn dangos bandiau a marciau cysylltiedig y dylid eu dyrannu i ymatebion sy'n arddangos y nodweddion y mae'r amcan(ion) asesu priodol sy'n berthnasol i'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.
- Cynnwys dangosol y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw’r cynnwys hwn yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr sôn am yr holl ddeunydd y cyfeiriwyd ato. Dylai arholwyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

Yr arholwyr sydd i benderfynu ar y band (lle mae mwy nag un marc mewn band) a'r marc sydd i'w roi. Mae'r wybodaeth ganlynol yn esbonio sut dylai arholwyr benderfynu ar y band a'r marc i'w roi.

### Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifydd ar gyfer y band hwnnw. Os yw'r ateb yn cyd-fynd â disgrifydd y band isaf, dylai'r arholwyr symud i’r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i’r ateb. Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb. I grynhoi:

- Y cam cyntaf i'r arholwr yw defnyddio'r cynnwys dangosol a'r grid asesu i benderfynu ar y band cyffredinol.
- Yr ail gam yw penderfynu pa mor amlwg yw'r nodweddion y disgwylir i'r ateb yn y band hwnnw eu cynnwys.
- Yn drydydd, rhoddir marc am y cwestiwn.

Mae rhai cwestiynau tariff uwch yn targedu sawl amcan asesu. Ar gyfer y cwestiynau hyn, os yw ateb yn haeddu dyfarniad o fandiau gwahanol ar gyfer amcanion asesu gwahanol, dylai arholwyr geisio gwobrwyo'r amrywiol nodweddion a welir yn yr ymateb sy’n berthnasol i'r amcanion asesu penodol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar nodweddion pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Mae cynnwys dangosol i'w weld hefyd ar gyfer cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau. Nid yw'r cynnwys dangosol yn gyflawn, a rhaid rhoi marciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill. Er mwyn cyrraedd bandiau uchaf y cynllun marcio nid oes angen i ymgeisydd drafod yr holl bwyntiau sy'n cael eu crybwyll yn y cynnwys dangosol, ond rhaid iddo fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ateb yn haeddu marciau, gan nad yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd o safbwynt y cynllun marcio, neu os nad oes ateb wedi'i roi o gwbl, ni ddylid rhoi marciau.

**Cwestiynau'n cynnwys darnau o destun**
Mae rhai cwestiynau yn cynnwys darnau o destun. Er ei bod hi'n briodol i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth a ddarperir mewn darnau, ni ddylent gael marciau am ailadrodd darnau o destun yn unig.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 1**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| ***4*** | **4** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **pennu rolau** | **Charles Murray** | **ecsbloetiaeth** |
| **hunaniaeth** | **Fiona Devine** | **gweithiwr cyfoethog** |

(a) Term sy'n golygu bod un grŵp yn cymryd mantais o grŵp arall mewn cymdeithas. [1]

(b) Term sy'n disgrifio ein synnwyr o ran pwy ydyn ni. [1]

(c) Term sy'n golygu'r ffordd mae swyddi yn cael eu rhannu (*given out*) mewn cymdeithas. [1]

(ch) Cymdeithasegydd o'r Dde Newydd. [1]

Rhowch un marc am bob ateb cywir

(a) ecsbloetiaeth [1]

(b) hunaniaeth [1]

(c) pennu rolau [1]

(ch) Charles Murray [1]



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2(a) a (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| ***2*** | **2** | | |

Edrychwch ar y wybodaeth ganlynol ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Mae brenhiniaeth gan y DU (*UK*) lle mae yna frenin neu frenhines. Mae'r tabl isod yn dangos canran (%) y bobl o oedrannau gwahanol, rhwng y blynyddoedd 1994 a 2021, oedd yn meddwl bod cael brenhiniaeth yn bwysig iawn i Brydain.

**Agweddau yn y DU tuag at y frenhiniaeth yn ôl oedran, 1994–2021**

| | Grŵp oedran | | |
|---|---|---|---|
| | 18–34 | 35–54 | 55+ |
| 1994 | 21 | 29 | 45 |
| 2000 | 19 | 26 | 45 |
| 2005 | 35 | 36 | 51 |
| 2011 | 35 | 36 | 51 |
| 2015 | 32 | 37 | 50 |
| 2021 | 14 | 27 | 44 |

Addasiad o Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Cymdeithasol, 2022.

Rhowch un marc am bob ateb cywir.

**(a)** **Nodwch y grŵp oedran sydd â'r canran uchaf yn 2021.** **[1]**

Dros 55

**(b) Nodwch y grŵp sydd â'r gostyngiad mwyaf o ran canran rhwng 1994 a 2021.** **[1]**

18-34



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| | | *4* | |

**(c) Disgrifiwch ddau batrwm neu duedd sydd i'w gweld yn y tabl, gan gefnogi eich ateb drwy gyfeirio at yr ystadegau yn y tabl. [4]**

Os rhoddir mwy nag un patrwm neu duedd, dylid marcio pob problem yn unol â'r meini prawf, a rhoi'r marc am y ddwy â'r marciau uchaf.

Rhowch un marc am bob pwynt sy'n cael ei wneud, (hyd at uchafswm o ddau) ac un marc yr un am yr ystadegau ategol.

Gall ymgeiswyr gyfeirio at un o'r pwyntiau neu broblemau isod. Gallant eu hategu ag ystadegau cywir o'r tabl.

- Mae canran y bobl iau/18-34 oed oedd yn cymeradwyo'r frenhiniaeth / y ganran oedd yn credu ei bod hi'n bwysig iawn cael brenhiniaeth / oedd ag agweddau cadarnhaol iawn tuag at y frenhiniaeth yn is na chanran y bobl hŷn.
- Mae canran y bobl hŷn /55+ oed oedd yn cymeradwyo'r frenhiniaeth / y ganran oedd yn credu ei bod hi'n bwysig iawn cael brenhiniaeth / oedd ag agweddau cadarnhaol iawn tuag at y frenhiniaeth yn uwch na chanran y bobl iau.
- Roedd y ganran oedd yn cymeradwyo'r frenhiniaeth yn gyffredinol / y ganran oedd yn credu ei bod hi'n bwysig iawn cael brenhiniaeth/ oedd ag agweddau cadarnhaol iawn tuag at y frenhiniaeth yn uwch ar gyfer pob grŵp oedran yn 2005 a 2011.
- Mae'r ganran sy'n cymeradwyo'r frenhiniaeth yn gyffredinol / y ganran sy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn cael brenhiniaeth/ sydd ag agweddau cadarnhaol iawn tuag at y frenhiniaeth wedi dechrau gostwng ers 2011 ar gyfer pob grŵp oedran.

Dylai ymgeiswyr roi esboniad llawn i ddangos eu bod yn deall y patrymau.

Rhoddir marciau am atebion sy'n cyfeirio at y ffynhonnell.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| ***2*** | **2** | | |

**Esboniwch beth yw ystyr cyfleoedd bywyd.** **[2]**

Rhowch un marc am ddiffiniad sylfaenol sy'n awgrymu bod cyfleoedd bywyd yn cyfeirio at y cyfleoedd sydd gan bobl o fod yn llwyddiannus/mwynhau pethau gwell mewn bywyd.

Rhowch farc ychwanegol am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Gall ymwneud ag addysg neu gyflogaeth.
- Gall ymwneud â chyfoeth, incwm, statws, grym neu iechyd.
- Rhowch farciau am gyfeiriad at fathau o gydraddoldeb/anghydraddoldeb.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 3 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | ***4*** | |

**Esboniwch ddwy ffordd gall cyfoeth effeithio ar gyfleoedd bywyd.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael ar gyfer pob ffordd sy'n cael ei hesbonio a'i chymhwyso at y cwestiwn. Os rhoddir mwy na dau reswm, dylid asesu'r ddau orau.

Rhowch un marc am bob ffordd a nodwyd ac un marc arall am ddatblygiad neu enghreifftiau. Ar gyfer yr ail farc, dylai ymgeiswyr ddatblygu ymhellach gan ddefnyddio terminoleg yn gywir a gallant gysylltu pob ffordd ag o leiaf un maes o fywyd gan gyfeirio at addysg, gwaith, incwm, cyfoeth, iechyd, grym neu drosedd. Gallant ddefnyddio'r un maes o fywyd ar gyfer y ddau reswm.

Gall ymgeiswyr gyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

Mae ymatebion yn debygol o ganolbwyntio ar feysydd fel addysg breifat, 'rhwydwaith y cyn-ddisgyblion', cyflogaeth, tlodi, rhagfarn, gwahaniaethu, safbwyntiau Marcsaidd am gyfalafiaeth. Efallai byddant hefyd yn cyfeirio at waith, addysg, trosedd, iechyd neu'r cyfryngau.

- O ran gwaith, gallai atebion gyfeirio at ddiweithdra, contractau dim oriau, bwlch cyflog, gwahaniaethu.
- O ran incwm a chyfoeth, gall swyddi gael eu rhoi i bobl sy'n ymddangos fel pe baent yn dod o gefndiroedd cyfoethog.
- O ran addysg, mae disgyblion o gefndiroedd cyfoethog yn fwy tebygol o lwyddo drwy gyfalaf diwylliannol, ysgolion preifat.
- O ran trosedd, mae pobl dlawd yn fwy tebygol o ddioddef trosedd ac yn fwy tebygol o gael eu harestio a'u hanfon i'r carchar na phobl gyfoethog.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **9** | **3** | ***3*** | ***3*** |

**Trafodwch a yw cyfleoedd bywyd yn y DU yn gyfartal.** **[9]**

***Yn eich ateb dylech chi drafod o leiaf dau ffactor sy'n gallu effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU i gefnogi eich barn.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar drafod o leiaf dau syniad/dwy ddamcaniaeth wahanol.

| **Band** | **AA1 3 marc** | | **AA2 3 marc** | | **AA3 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o ddau ffactor sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir o ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ddau ffactor sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU, er bod diffyg manylion a rhai gwallau/materion amherthnasol.<br><br>**Neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond un ffactor yn unig sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd sydd wedi ei ystyried. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau.<br><br>**Neu** mae gwybodaeth a dealltwriaeth wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir o un ffactor sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU.<br><br>**Neu** dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU.<br><br>Ni fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol. Efallai y bydd casgliad yn arwynebol. | **2** |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 3 marc | | AA2 3 marc | | AA3 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o safbwyntiau cymdeithasegol am ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU, ac mae gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | 1 | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y DU yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | 1 | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | 1 |
| | **Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

**Cynnwys dangosol**

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol.

- Gwybodaeth am feritocratiaeth.
- Gwybodaeth am Swyddogaetholdeb – Davis a Moore, pennu rolau effeithiol, gwobrau.
- Safbwynt y Dde Newydd – Peter Saunders.
- Gwybodaeth am y safbwynt Marcsaidd – Bowles a Gintis, mae addysg yn atgynhyrchu anghydraddoldeb, y dosbarth gweithiol a'r dosbarth sy'n rheoli, rhwydwaith y cyn-ddisgyblion, safbwynt gwrthdaro am gymdeithas, ecsbloetiaeth, cyfalafiaeth, ymwybyddiaeth ffug o ddosbarth.
- Ffeministiaeth – nenfwd gwydr, rhywiaeth, bwlch cyflog rhwng y rhywiau, patriarchaeth.
- Bwlch cyflog ethnig, Hiliaeth sefydliadol, gwahaniaethu, stereoteipio.
- Bwlch cyflog anabledd a stereoteipio.
- Oedraniaeth.
- Dylid rhoi marciau am gyfeirio at gyfoeth, incwm, gwaith ac addysg.
- Rhowch farciau am gyfeirio'n gywir at gymdeithasegwyr a damcaniaeth lle bo'n berthnasol.
- Dylid cael trafodaeth ar y syniadau cymdeithasegol a chasgliad perthnasol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4**

**Darllenwch y darn canlynol ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.**

| |
|---|
| Mae Cyngor ar Bopeth (*Citizens Advice*) yn disgrifio **gwahaniaethu** ar sail oedran (*age discrimination*) fel cael eich trin yn annheg oherwydd eich oedran neu'r grŵp oedran rydych chi'n perthyn iddo. Mae oedran yn nodwedd warchodedig (*protected characteristic*) dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl ar sail pa mor hen maen nhw'n edrych neu oherwydd y person sydd gyda nhw, fel rhiant, partner, plentyn neu ffrind. |

.Addasiad o citizensadvice.org.uk

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Cwestiwn 4 (a)**

**Esboniwch beth yw ystyr gwahaniaethu. [2]**

Rhowch un marc am esboniad sylfaenol sy'n awgrymu ei fod yn golygu trin unigolion yn wahanol, ar sail eu nodweddion personol fel oedran, rhywedd neu ethnigrwydd.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig neu ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod, neu bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Gall gall fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.
- Trin rhywun yn wahanol, o bosibl oherwydd dosbarth, ethnigrwydd, rhywedd, oedran neu wahaniaeth arall.
- Gall ddigwydd oherwydd rhagfarn ond mae'n golygu trin rhywun yn wahanol yn hytrach na meddwl am rywun mewn ffordd wahanol yn unig.
- Unrhyw enghraifft gywir o wahaniaethu.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | ***4*** | |

**Esboniwch ddwy ffordd gall y cyfryngau gyflwyno pobl iau (*present younger people*).** **[4]**

Rhowch un marc am un esboniad sylfaenol sy'n cynnig un ffordd y gall y cyfryngau gyflwyno pobl ifanc. Er enghraifft:

- Efallai fod pobl ifanc yn cael eu hystyried yn brin o brofiad felly dydyn nhw ddim yn cael dyrchafiad.
- Efallai bydd rhai pobl ifanc yn cael eu gweld fel pobl sy'n achosi helynt, yn goryfed mewn pyliau neu sydd ag obsesiwn â'u ffonau felly maen nhw'n cael eu trin yn wahanol.
- Mae pobl ifanc yn cael eu hystyried fel rhai nad ydynt yn gwybod digon i ystyried eu barn.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad neu ddatblygiad mwy datblygedig sy'n defnyddio terminoleg gymdeithasegol neu enghreifftiau soffistigedig fel isod:

- Mae pobl ifanc yn cael eu hystyried yn gythreuliaid y werin ac yn destun panig moesol. E.e. mods a rocers, gangiau cyllell.
- Mae pobl ifanc yn cael eu stereoteipio yn bobl wrthryfelgar ac efallai na fyddant yn cael cyfleoedd neu ni fydd pobl yn ymddiried ynddynt o ganlyniad.

Mae dau farc arall ar gael ar gyfer ail ffordd sy'n cael ei datblygu neu un ar gyfer ffordd sylfaenol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 4(c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| 2 | **2** | | |

**Esboniwch un stereoteip sy'n gallu effeithio ar bobl hŷn (*older people*).** **[2]**

Mae 1 marc ar gael ar gyfer stereoteip dilys sy'n gallu effeithio ar bobl hŷn. e.e. maen nhw'n anghofus, yn cael trafferth gyda thechnoleg newydd.

Rhowch farc ychwanegol ar gyfer datblygiad neu esiampl. Gall dysgwyr gyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu at bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

Gall pobl hŷn gael eu portreadu fel rhai sy'n cael trafferth gyda thechnoleg; felly, mae pobl yn amharod i'w cyflogi gan arwain at wahaniaethu. Enghreifftiau posibl o'r cyfryngau neu'r cyfryngau cymdeithasol. Oedraniaeth yw hyn ac mae yn erbyn y gyfraith yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gwelodd Prifysgol De California fod stereoteipiau a safbwyntiau negyddol yn gyffredin yn y cyfryngau, e.e. mae hen bobl yn cael eu cyflwyno fel unigolion eiddil neu ffwndrus. Gall hyn effeithio ar eu cyfleoedd bywyd gan na fyddant yn cael cynnig swyddi.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **9** | **3** | ***3*** | ***3*** |

**Trafodwch sut mae oedraniaeth (*ageism*) yn effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU.**
**[9]**

***Yn eich ateb dylech chi gyfeirio at dystiolaeth o ddau faes o fywyd o leiaf ac o ddau grŵp oedran i gefnogi eich barn.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar drafod o leiaf dau faes o fywyd.

| **Band** | **AA1 3 marc** | | **AA2 3 marc** | | **AA3 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o ddwy ffordd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir o ddwy ffordd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o ddwy ffordd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ddwy ffordd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU, er bod diffyg manylion a rhai gwallau/materion amherthnasol.<br>**Neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond un grŵp neu faes o fywyd yn unig sydd wedi ei ystyried. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio dwy ffordd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau.<br>**Neu** mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir un grŵp neu faes o fywyd lle gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o ddwy ffordd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU.<br>**Neu** dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o un grŵp neu faes o fywyd a sut gall oedraniaeth effeithio arnynt.<br>Ni fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol.<br>Efallai y bydd casgliad yn arwynebol. | **2** |


© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 3 marc | | AA2 3 marc | | AA3 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o ffyrdd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU, ac mae gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r ffyrdd y gall oedraniaeth effeithio ar grwpiau gwahanol yn y DU yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | **Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol.

Mae'r ymatebion yn debygol o ganolbwyntio ar feysydd fel allgáu cymdeithasol, stereoteipio, rhagfarn, gwahaniaethu, cynrychioliad yn y cyfryngau, deddfwriaeth, iechyd, incwm a chyfoeth, tlodi, gwaith ac addysg. Gall ymatebion hefyd gyfeirio at ddosbarth, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a/neu rywioldeb.

- Rhagfarn, stereoteipio, labelu.
- Deddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Gwaith, iechyd, gwahaniaethu.
- Cynrychioliad yn y cyfryngau, panig moesol, gwneud bwch dihangol.
- Henaint, ieuenctid.
- Statws a grym.
- Allgáu cymdeithasol, tlodi a chynhwysiant cymdeithasol.
- Rhowch farciau am gyfeirio'n gywir at gymdeithasegwyr a damcaniaeth lle bo'n berthnasol.
- Dylai dysgwyr drafod pa mor arwyddocaol fu'r newidiadau yn y meysydd maen nhw’n edrych arnynt.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | ***4*** | |

**Esboniwch, gan roi enghreifftiau, beth yw ystyr statws.** **[4]**

Rhowch un marc am esboniad sylfaenol sy'n nodi bod statws yn gysylltiedig â safle unigolyn mewn cymdeithas neu ei bwysigrwydd.

Rhowch 2 farc arall am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod o leiaf neu enghreifftiau perthnasol eraill yn fanwl, neu o leiaf ddau bwynt yn llai manwl.

Rhowch farc ychwanegol am ddefnyddio iaith gymdeithasegol berthnasol.

- Mae gwahanol fathau o statws.
- Statws a bennwyd yw statws y mae person yn cael ei eni iddo e.e. y Teulu Brenhinol.
- Mae'n rhaid ennill statws a gyflawnwyd trwy waith caled a gallu. e.e. llawfeddyg, cyfreithiwr, chwaraewr pêl-droed proffesiynol.
- Gall statws fod yn gysylltiedig ag oedran hefyd. Er enghraifft, mae'r Tsieineaid, Groegwyr, Coreaid, Affricanwyr llwythol, Americanwyr brodorol, i gyd yn rhoi statws i henaduriaid.
- Gall dosbarth cymdeithasol a pherchnogaeth eiddo fod yn gysylltiedig â statws.
- Gall patriarchaeth hefyd olygu bod gan ddynion statws uwch na menywod.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 5 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **4** | | |

**Disgrifiwch ddau reswm pam mae gan rai pobl awdurdod dros eraill.** **[4]**

Mae un marc ar gael am bob rheswm sylfaenol a ddisgrifiwyd. e.e. Mae pobl yn cael awdurdod drwy gael dyrchafiad yn y gwaith. Mae 2 farc ar gael am bob rheswm datblygedig pam mae gan bobl awdurdod sydd wedi'i nodi a'i ddisgrifio. Os rhoddir mwy na dau reswm, dylid asesu'r ddau orau.

Gall ymgeiswyr gyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- Gall pobl gael awdurdod yn y gwaith drwy gael dyrchafiad.
- Mae awdurdod traddodiadol yn seiliedig ar arferion hirsefydlog, fel y Teulu Brenhinol.
- Mae awdurdod carismatig oherwydd grym personoliaeth, fel Crist neu Gandhi.
- Mae awdurdod rhesymegol-gyfreithiol yn seiliedig ar ennill awdurdod drwy system resymegol megis democratiaeth sy'n ethol prif weinidog.
- Gallai awdurdod fod yn gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol, oedran neu rywedd.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **9** | **3** | ***3*** | ***3*** |

**'Mae rhai grwpiau mewn cymdeithas sydd â llai o rym (*power*) na grwpiau eraill.' Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn?** **[9]**

*Yn eich ateb dylech chi gyfeirio at dystiolaeth o ddau safbwynt cymdeithasegol o leiaf sy'n cefnogi eich barn.*

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – ni ellir rhoi mwy na Band 2 am ymateb nad yw'n ceisio cyfeirio at dystiolaeth o ddau safbwynt cymdeithasegol o leiaf.

| **Band** | **AA1 3 marc** | | **AA2 3 marc** | | **AA3 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o sut gall rhai grwpiau mewn cymdeithas fod â llai o rym na grwpiau eraill, gan gyfeirio at enghreifftiau neu dystiolaeth o ddau safbwynt cymdeithasegol o leiaf. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol o ddau safbwynt cymdeithasegol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir sut gall rhai grwpiau fod â llai o rym na grwpiau eraill. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o'r hyn mae'r dystiolaeth / enghreifftiau o ddau safbwynt cymdeithasegol o leiaf yn ei ddangos mewn perthynas â sut gall rhai grwpiau fod â llai o rym na grwpiau eraill. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o sut gall rhai grwpiau mewn cymdeithas fod â llai o rym na grwpiau eraill, gyda chyfeiriad at enghreifftiau neu dystiolaeth o ddau safbwynt cymdeithasegol, er bod diffyg manylion a rhai gwallau/materion amherthnasol.<br>**Neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond un safbwynt cymdeithasegol sydd wedi ei ystyried yn unig. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol o ddau safbwynt cymdeithasegol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio sut gall rhai grwpiau fod â llai o rym na grwpiau eraill. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r safbwyntiau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau.<br>**Neu** mae gwybodaeth a dealltwriaeth o un safbwynt cymdeithasegol yn cael eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir ac yn fanwl sut mae gan rai grwpiau lai o rym na grwpiau eraill. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o'r hyn y mae'r dystiolaeth / enghreifftiau o ddau safbwynt cymdeithasegol yn ei ddangos mewn perthynas â sut gall rhai grwpiau fod â llai o rym na grwpiau eraill.<br>**Neu** dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o'r hyn y mae'r dystiolaeth/enghreifftiau o un safbwynt cymdeithasegol yn ei ddangos.<br>Ni fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol. Efallai y bydd casgliad yn arwynebol. | **2** |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 3 marc | | AA2 3 marc | | AA3 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o sut gall rhai grwpiau fod â llai o rym na grwpiau eraill gyda chyfeiriad at un safbwynt cymdeithasegol, a allai gael ei nodweddu gan wallau a diffyg dealltwriaeth. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | 1 | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio sut gall rhai grwpiau fod â llai o rym na grwpiau eraill yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | 1 | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | 1 |
| | **Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

**Cynnwys dangosol**

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol.

Gall dysgwyr gyfeirio at y ddadl ynghylch a oes gan rai grwpiau llai o rym na grwpiau eraill, ond mae'r cwestiwn yn ymwneud yn bennaf â'r dystiolaeth. Mae'r ymatebion yn debygol o ganolbwyntio ar ddosbarth, oedran, rhywedd ac ethnigrwydd.

O ran dosbarth, efallai bydd atebion yn trafod:
- Damcaniaeth Marcsaidd a'r system dau ddosbarth.
- Ymwybyddiaeth ffug o Ddosbarth, rheoli'r cyfryngau.
- Ecsbloetio.
- Damcaniaeth gwrthdaro.
- Rhwydwaith y cyn-ddisgyblion/Ysgolion preifat.

O ran rhywedd, efallai bydd atebion yn trafod:
- Mae cyfran uchel o'r bobl sydd mewn swyddi uchel yn y gymdeithas yn ddynion, nenfwd gwydr.
- Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
- Deddfwriaeth ac effaith y Ddeddf Cyflog Cyfartal, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw.
- Mwy o ASau benywaidd.
- Mae llawer mwy o fenywod yn gweithio, gwell rhagolygon gwaith ar gyfer merched.
- Gall menywod fod yn fwy annibynnol.
- Ffemineiddio'r gweithle.
- Nid yw meritocratiaeth yn digwydd gan fod gwahaniaethu yn erbyn merched.
- Anghydraddoldeb yn y teulu.
- Mae menywod yn dal i fod yn destun ffurfiau cryfach o reolaeth gymdeithasol, Heidensohn.
- Mae merched yn dal i gael eu cymdeithasoli'n wahanol i fod yn fwy tawel, addfwyn ac ufudd.
- Dadleuon ffeministaidd bod dynion yn dal i reoli menywod trwy fygwth trais domestig.
- Mae ffeministiaid yn dadlau bod rhywedd yn dal i gael effaith enfawr ar gyfleoedd rhywun mewn bywyd.



© WJEC CBAC Ltd.

O ran oedran:
- Rhagfarn, stereoteipio a gwahaniaethu.
- Oedraniaeth.

O ran ethnigrwydd:
- Rhagfarn, stereoteipio a gwahaniaethu.
- Hiliaeth, Hiliaeth sefydliadol.
- Cyfraddau dioddefwyr, cyfraddau euogfarnu.

Rhowch farciau am gyfeiriadau cywir at gymdeithasegwyr a damcaniaeth.

Dylai'r ddadl gynnwys rhyw fath o gasgliad.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.


© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch beth yw ystyr y term thesis sifalri.** **[2]**

Rhowch un marc am ddisgrifiad sylfaenol sef bod menywod yn cael eu trin yn llai llym gan yr heddlu ac ati.

Rhowch farc ychwanegol am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu bwyntiau perthnasol eraill:

- Y syniad bod cyfraddau troseddu is menywod yn gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith yn wahaniaethol.
- Mae dynion eisiau 'achub' merched felly maent yn eu trin yn fwy trugarog fel marchogion mewn arfwisg loyw.
- Cyfeiriad at Pollak a'r ffaith mai ei ddamcaniaethau oedd man cychwyn troseddeg fenywaidd.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **5** | **5** | | |

**Amlinellwch, gan roi enghreifftiau, beth yw ystyr panig moesol.** **[5]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| **Band** | **AA1 5 marc** | |
|---|---|---|
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl, berthnasol o'r broses o sut mae panig moesol yn digwydd mewn cymdeithas, gydag o leiaf dwy enghraifft. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4-5** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o sut mae panig moesol yn digwydd mewn cymdeithas, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2-3** |
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o sut mae panig moesol yn digwydd mewn cymdeithas, a all gynnwys gwallau a diffyg dealltwriaeth. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | |

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o'r materion i'w hystyried yn y disgrifiad:

- Y cyfryngau yn gorliwio problem er mwyn gwneud iddi ymddangos fel bygythiad i'r gymdeithas gyfan, e.e. cychod bach yn croesi'r Sianel, neu unrhyw ddiffiniad cywir arall.
- Stanley Cohen – Cythreuliaid y Werin a Phanig Moesol.
- Ymhelaethiad o wyredd.
- Gwneud bwch dihangol.
- Cythreuliaid y werin fel grwpiau ar y tu allan.
- Y cyfryngau yn gorliwio a chreu cyffro.
- Mods a Rocers neu enghreifftiau eraill.
- Sarah Thornton – Diwylliannau Clybiau.
- Stuart Hall – Plismona'r argyfwng.
- Rheolaeth i wneud bywyd bob dydd yn rhagweladwy ac yn bosibl ei reoli.

Rhowch farciau am gyfeirio at ddamcaniaethau; Rhyngweithiadaeth.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **8** | **4** | ***4*** | |

**Esboniwch y prif batrymau trosedd ar gyfer grwpiau gwahanol yn y DU gyfoes (*contemporary UK*).** **[8]**

***Yn eich ateb dylech chi archwilio o leiaf dau grŵp.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar archwilio o leiaf dau grŵp.

| **Band** | **AA1 4 marc** | | **AA2 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o batrymau trosedd ar gyfer o leiaf dau grŵp gwahanol yn y DU gyfoes. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol am batrymau trosedd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir sut mae patrymau trosedd yn amrywio ar gyfer o leiaf dau grŵp gwahanol. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** |
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o batrymau trosedd ar gyfer o leiaf dau grŵp gwahanol yn y DU gyfoes, er y bydd un grŵp wedi'i ddisgrifio'n llai manwl na'r llall. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol am batrymau trosedd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir sut mae patrymau trosedd yn amrywio ar gyfer o leiaf dau grŵp gwahanol. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd un o'r grwpiau hyn wedi'i esbonio'n llai manwl na'r llall | **3** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o batrymau trosedd yn y DU gyfoes, er bydd rhai gwallau/materion amherthnasol a diffyg datblygiad a manylion, **neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond un grŵp yn unig sy'n cael ei esbonio. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol am batrymau trosedd yn y DU gyfoes wedi'u cymhwyso, ond bydd fawr o ddatblygiad a rhai gwallau, **neu** un grŵp yn unig sydd wedi'i gymhwyso a'i ddefnyddio i esbonio'n gywir ac yn fanwl sut mae ystadegau trosedd yn cael eu casglu. | **2** |
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o batrymau trosedd yn y DU gyfoes. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio patrymau trosedd yn y DU gyfoes yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** |
| **Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o’r materion i’w hystyried yn yr esboniad:

- Y gromlin drosedd oedran – mae pobl iau yn troseddu mwy.
- Mae cyfraddau euogfarnu dynion yn uwch, mae troseddu gan fenywod ar gynnydd.
- Cyfraddau troseddu uwch y dosbarth gweithiol.
- Cyfraddau dioddefwyr.
- Gostyngiad yn nifer y troseddau cafodd yr heddlu wybod amdanynt ers 1997.
- Troseddau newydd, seiberdroseddu.
- Cynnydd mewn troseddau gwn, cyllell, troseddau treisgar - cysylltiad posibl â phanig moesol.
- Oes aur yn y gorffennol – Hooligan, Geoffrey Pearson.
- Mae'n haws rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau gan ddefnyddio ffonau symudol.
- Rhowch farciau am wybodaeth gymdeithasegol berthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6(ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **15** | **4** | ***3*** | ***8*** |

**'Mae ystadegau trosedd swyddogol yn ddefnyddiol er mwyn deall faint o drosedd sy'n bodoli yng nghymdeithas y DU.' Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn? [15]**

*Yn eich ateb dylech chi gyfeirio at safbwyntiau cymdeithasegol gwahanol i gefnogi eich barn.*

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| **Band** | **AA1 3 marc** | | **AA2 3 marc** | | **AA3 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o amrywiaeth o safbwyntiau cymdeithasegol yn ymwneud â pha mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Rhoddir 3 marc fel yn achos Band 3. | | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o ba mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol.<br>Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **7-8** |
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o safbwyntiau cymdeithasegol yn ymwneud â pha mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol, er y bydd rhai safbwyntiau'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio pa mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o ba mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol.<br>Efallai na fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **5-6** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ba mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol, er bydd diffyg manylion a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio pa mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r safbwyntiau hyn yn cael eu hesbonio yn llai manwl na'r lleill a bydd gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o ba mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **3-4** |



© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 3 marc | | AA2 3 marc | | AA3 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o ba mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio pa mor ddefnyddiol yw ystadegau trosedd swyddogol. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1-2** |
| | **Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | | | | |

Cwestiwn ymateb estynedig yw hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwahanol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth ar draws y cynnwys perthnasol o'r fanyleb. Dylent lunio a datblygu rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol.

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

**Cynnwys dangosol**

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o'r materion i'w hystyried yn y drafodaeth:

- Ffigur cudd trosedd.
- Plismona ac ystadegau swyddogol – Tuedd yr heddlu, hiliaeth sefydliadol.
- Nid yw ystadegau swyddogol yn cofnodi troseddau coler wen / corfforaethol.
- Gall panig moesol sy'n aml yn cael ei gyfeirio at y dosbarth gweithiol ifanc a lleiafrifoedd ethnig arwain at gynnydd mewn rhai mathau o droseddau yn yr ystadegau.
- Marcsaeth - gorfodi'r gyfraith yn wahaniaethol.
- Thesis sifalri.
- Trosedd anweledig.
- Newidiadau mewn systemau cofnodi.
- Pwysau ar yr heddlu i gasglu ystadegau.
- Rhowch farciau am gyfeirio at gymdeithasegwyr a damcaniaeth berthnasol lle bo'n berthnasol e.e., Chambliss, Cohen.
- Dylai'r ddadl gynnwys rhyw fath o gasgliad.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 7 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **1** | | ***1*** | |

**Yn 2022, roedd yr elusen digartrefedd, Crisis UK, wedi rhagweld y bydd digartrefedd yn parhau i godi dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae gofyn i chi gynnal ymchwil cymdeithasegol ar y rhesymau pam mae pobl yn dod yn ddigartref.**

(a) **Nodwch ddull ymchwil addas fyddai'n gallu cael ei ddefnyddio.** **[1]**

Dylid rhoi un marc am ddewis dull priodol fel:
- Cyfweliadau – (strwythuredig neu anstrwythuredig).
- Arsylwi (cyfranogol).
- Holiaduron.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 7 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | ***4*** | |

**Esboniwch ddwy broblem ymarferol gydag ymchwil i ddigartrefedd.** **[4]**

Mae 1 marc ar gael ar gyfer un broblem ymarferol sylfaenol wrth ymchwilio i ddigartrefedd. Er enghraifft, dod o hyd i sampl.

Mae ail farc ar gael am ateb datblygedig, e.e., Gallai dod o hyd i sampl fod yn broblem oherwydd efallai na fydd pobl ddigartref yn ymddiried mewn ymchwilydd. Fodd bynnag, gall gweithio gydag elusen, fel Shelter, helpu gyda'r broblem hon.

Os rhoddir mwy na dwy broblem, dylid marcio pob problem yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am yr un â'r marciau uchaf.

Dylai'r ymatebion ganolbwyntio ar broblemau ymarferol y dull a ddewiswyd ar gyfer y project ymchwil hwn i ddigartrefedd.

Gallai problemau gynnwys cost, amser, dilysrwydd, samplu, defnyddio porthor i gael mynediad at grŵp, moeseg gan gynnwys diogelwch, nodweddion personol. Mae dau farc ar gael ar gyfer cymhwysiad penodol o'r dull a ddefnyddir ar gyfer y testun hwn.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 7 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **6** | | ***3*** | ***3*** |

**Esboniwch a gwerthuswch y defnydd (*use*) o'r dull ymchwil rydych chi wedi'i ddewis i astudio digartrefedd. [6]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| **Band** | **AA2 3 marc** | | **AA3 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir gryfderau a gwendidau'r dull a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil i ddigartrefedd. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o sut bydd cryfderau a gwendidau'r dull a ddewiswyd yn effeithio ar yr ymchwil. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth /dulliau perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio cryfderau a gwendidau'r dull a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil i ddigartrefedd. Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr esboniad ond bydd rhai gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o sut bydd cryfderau a gwendidau'r dull a ddewiswyd yn effeithio ar yr ymchwil.<br>Efallai na fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **2** |
| **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio cryfderau a gwendidau'r dull a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil i ddigartrefedd yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys dangosol**

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o'r materion i'w hystyried:

- Cryfderau a chyfyngiadau'r dull a ddewiswyd.
- Data meintiol neu ansoddol.
- Cymryd llawer o amser.
- Cost.
- Dibynadwyedd.
- Dilysrwydd.
- Cynrychioldeb – maint y sampl.
- Materion moesegol.
- Perygl.
- Enghreifftiau o astudiaethau sy'n defnyddio'r dull a ddewiswyd.

Rhowch farciau am gyfeiriadau at gyd-destun astudio digartrefedd.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.